

Cofnodion Cyngor Cymuned Llanuwchllyn

Hydref 6ed, 2015

Presennol: Alwyn Roberts (Cadeirydd), Beryl Hughes Griffiths (is gadeirydd), Huw Antur, Dewi Jones, Heledd Jones, Karl Jones, Rhodri Jones, Catrin Roberts, Huw P Roberts, Ian Trow, Alan Jones Evans, (Cyngorydd Gwynedd), Bethan Edwards (Swyddog Ariannol), Lis Puw (Clerc)

1482 Croesawyd pawb ac nid oedd ymddiheuriadau.

1483 Nid oedd cyflwyniadau gan aelodau o'r cyhoedd ar fater ar yr Agenda.

1484 Nid oedd datganiadau o fuddiant.

1485 Cadarnhawyd cywirdeb Cofnodion cyfarfod 1af o Fedi, 2015.

1486 Materion y Clerc:

- i. Derbyniwyd negeseuon gan Ferched y Wawr a Sefydliad y Merched yn mynegi mai dyddiad yn Hydref 2016 fyddai mwyaf cyfleus i gynnal Noson Goffi ar y cyd er budd elusennau. Cytunwyd i wneud y trefniadau yn gynnar yn yr Haf.
- ii. Derbyniwyd gwybodaeth fod gwifrau trydan wedi eu gosod yn y tir wrth y Gilfach Goffa ar gyfer y goleuadau newydd i reoli cyflymder. **Mae angen i fudiadau a threfnwyr achlysuron fod yn ymwybodol o'r perygl wrth osod baneri a fflagiau i hysbysebu unrhyw achlysur.** Derbyniwyd yr awgrym i osod peipen addas ar gyfer derbyn polion neu ffrâm ar y safle, ar ôl derbyn cyfarwyddyd gan Swyddogion Gwynedd o union leoliad y gwifrau.

Cytunodd Karl Jones ac Ian Trow i drwsio'r llechen rydd wrth y gilfach goffa.

- iii. Derbyniwyd gwybodaeth gan Barc Cenedlaethol Eryri fod modd adrodd ar rywogaethau ymledol (megis Jac y neidiwr a Llysiau'r Dial - *Himalayan Balsam* a *Japanese knotweed*) drwy gofnodi ar y wefan <http://www.eryri-npa.gov.uk/cym/the-environment/invasive-species>. Mae'r rhywogaethau ymledol hyn wedi eu canfod yn ardal Llanuwchllyn.

1487 Derbyniwyd Adroddiad o'r cyfarfod adeiladol gyda Chartrefu Cymunedol Gwynedd. Mae nifer o syniadau mewn llaw i wella'r amgylchfyd ym Maesypanyd a mynegwyd y byddai'r Cyngor Cymuned yn barod i ystyried bod o gymorth i wireddu'r mesurau hyn.

Y prif negeseuon oedd bod angen i bobl leol roi eu henwau ar y rhestr aros ymhell cyn eu bod yn dymuno symud; mae help ar gael i lunio cais cryf (cysylltwch gyda'r

Cyngor Cymuned Llanuwchllyn

Cadeirydd: Alwyn Roberts

Clerc am fwy o wybodaeth); mae'n bosib i berson sy'n berchen ar dŷ ar hyn o bryd cael ei dderbyn fel tenant mewn eiddo Cartrefi Cymunedol Gwynedd.

- 1488 **Adroddiad y Cynghorydd Sir:** soniodd yn bennaf am y pwysigrwydd i drigolion fynychu'r sesiwn ymgynghorol a gynhelir yn Ysgol y Berwyn ar 19/10/15 ar doriadau yn y gwasanaeth, ac i lenwi'r ffurflen ar lein. Diolchwyd i'r Cynghorydd am ei waith.

1489 **Materion Eiddo'r Cyngor**

- i. **Y Fynwent Newydd:** Derbyniwyd adroddiad is-bwyllgor y Fynwent a fu'n archwilio'r cerrig beddi. **Am resymau diogelwch bu rhaid rhoi sawl carreg sigledig ar lawr. Mae eraill hefyd angen sylw ac anogir teuluoedd i wirio diogelwch y meini a thrwsio lle bo angen. Gellir cysylltu gyda Chlerc y Fynwent, Mrs Bethan Edwards, Perthi, Cae Gwalia (01678 540 601).**

Bydd yr is-bwyllgor yn cyfarfod eto i drafod ymhellach. Mae Rheolau'r Fynwent yn cael eu harddangos ar hyn o bryd wrth fynedfa'r fynwent, a chytunwyd i chwilio am hysbysfyddau pwrpasol i'w harddangos.

Cytunwyd y byddai'n ddymunol i gloi gatiau'r maes parcio noson cyn angladd er mwyn bod yn siŵr fod lle i alarwyr barcio yno.

- ii. **Eiddo arall:** Diolchwyd i Karl Jones am ei waith trylwyr yn archwilio'r eiddo a chytunwyd i symud ymlaen i gynnal ac adfer y 3 lloches bws gan ofyn am 3 dyfynbris.

1490 **Materion ariannol**

Cytunwyd i dalu biliau'r mis. Cytunwyd i dynnu allan o'r cytundeb gyda British Gas a chwilio am ddarparwr trydan arall i doiledau'r pentref.

Derbyniwyd ail daliad y Praesept.

1491 **Materion lleol gan aelodau'r Cyngor Cymuned**

Mynegodd gweinyddwraig LEADER ddiddordeb mewn defnyddio gwaith a enillodd y wobr gyntaf yn yr Eisteddfod Genedlaethol i Beryl Hughes Griffiths i hyrwyddo'r economi leol; byddid yn cyflawni hyn trwy baratoi byrddau gwybodaeth ac *app* yn gysylltiedig gyda nhw. Cytunwyd i geisio mwy o fanylion am hyn.

Cytunodd Alan Jones Evans i edrych mewn i fater clirio'r ffos er mwyn diogelu canol y pentref rhag llif.

- 1492 **Partneriaeth Penllyn:** derbyniwyd adroddiad y cynrychiolwyr a soniwyd am gyfarfod gyda Swyddog o Gyngor Gwynedd am ddatganoli gwasanaethau.

Soniwyd am y grantiau a geisir i uwchraddio llawr uchaf yr Henblas ac i gynnal gwasanaeth cynhaliol i bobl sy'n byw ac yn gweithio yng nghefn gwlad.

Bydd trafodaeth yn digwydd yn fuan ar "Prynu'n Lleol".

Cyngor Cymuned Llanuwchllyn

Cadeirydd: Alwyn Roberts

Cytunwyd i wneud cyfraniad tuag at weithgareddau “lles” yn yr Henblas ar yr un raddfa a’r cyfraniad arferol at waith Partneriaeth Penllyn. Mynegwyd gwerthfawrogiad o’r ddarpariaeth sydd ar gael yn yr Henblas ar gyfer rhoi cyngor a chynhaliaeth i unigolion a theuluoedd lleol.

1493 **Gohebiaeth:**

1. Parc Cenedlaethol Eryri: Derbyniwyd gwybodaeth am ganiatâd wedi ei roi i geisiadau cynllunio:

- ychwanegu ffenestri a gwaith trwsio allanol Neuadd Wen
- gosod sustem trin carthion i’r de o Ffridd Helyg

Nodwyd derbyn gwybodaeth am Apêl Gorfodaeth Tŷ’n Ffridd, Llanuwchllyn (APP/H9504/C/15/3131966)

Cymeradwywyd cais NP5/71/457 i ddiwygio Cytundeb Adran 106 (10/10/2006) i ryddhau 36 Maesypandy o’r Gytundeb ar y ddealltwriaeth nad ydyw’n peryglu statws fforddiadwy lleol y safle.

Nodwyd y gwahoddiad i gyfarfod blynyddol Parc Cenedlaethol Eryri.

2 Gwynedd:

Derbyniwyd gohebiaeth bellach am ail-strwythuro’r Gwasanaeth Cofrestru sydd erbyn hyn wedi ei leoli ym Mhenarlâg, Dolgellau (rhwng 10.00 a 12.00 o’r gloch).

Derbyniwyd gwybodaeth am ymgynghoriad a holiadur “Her Gwynedd”.

3 Eraill:

Cytunwyd i ganiatáu’r ceisiadau i ddefnyddio Maes Parcio’r Fynwent 14/10/15 a 22/3/16 ar gyfer ymweld â Chastell Carndochan.

Derbyniwyd gwybodaeth am Rali GB Cymru – 10fed a 13 ac 14 Tachwedd – bydd mynediad cyfyngedig i Gwm Hirnant.

Derbyniwyd llythyr yn gofyn i’r Cyngor bwyso ar Gyngor Gwynedd / Contractwyr orffen y gwaith ar y llwybr wrth New Inn. Cytunodd Huw Antur i weithredu ar ran y trigolion lleol.

Cytunodd hefyd i gysylltu gyda Pharc Cenedlaethol Eryri am y gwaith cynnal a chadw ar y llwybr.

Dyddiad a lleoliad y cyfarfod nesaf: 3/11/15 yn y Neuadd Bentref

Cyngor Cymuned Llanuwchllyn
Cadeirydd: Alwyn Roberts

Amser gorffen: 9.30pm